
*Rhif:* ***35*** *Enw'r Ardal Cymeriad Morwedd:* **Dyfroedd arfordirol Castellmartin**




**ACM35:Dyfroedd Arfordirol Castellmartin**



*Pen Gofan o'r gorllewin*



*Edrych tua'r gorllewin o Ben Gofan*



*Capel Sain Gofan gyda golygfeydd sianelog allan at y môr*



*Creigiau a bwâu dan glogwyni calchfaen*

## Disgrifiad Cryno

Arfordir anghysbell, garw o glogwyni calchfaen fertigol gyda bwâu a staciau, sy'n agored iawn gyda dyfroedd bas. Defnyddir ardal y tir a'r môr fel maes tanio ymarfer milwrol ac mae hyn yn gostwng y llonyddwch pan fydd ar waith ac yn cyfyngu ar fynediad at y llwybr arfordirol sydd â golygfeydd panoramig o'r môr. Mae tirffurf y gefnfro yn llwyfandir arfordirol sydd ychydig yn donnog tua 50m UDO gydag ardaloedd mawr o laswelltir lled-naturiol.

## Nodweddion Allweddol

- Adran greigiog, garw o'r arfordir calchfaen gyda chlogwyni serth, bwâu a staciau a dyfroedd bas sydd weithiau'n fradwrus.
- Llwyfandir arfordirol sydd ychydig yn donnog tua 50m UDO gyda glaswelltir ar lwyfandir arfordirol agored a maes tanio milwrol
- Dim anheddiad
- Golygfeydd panoramig o Ben Gofan; golygfeydd eang iawn o'r môr o ardaloedd eraill
- Mynediad at y llwybr arfordirol a mordwyaeth wedi eu cyfyngu gan weithgarwch milwrol
- Arfordir anghysbell, tywyll, gwyllt sy'n heddychlon pan na fydd y maes milwrol yn gweithredu.
- Mae gweithgarwch y Weinyddiaeth Amddiffyn yn cyfyngu ar hwylio a chychod ond gellir gweld tanceri i'r gorllewin

## Nodweddion Ffisegol

Pentiroedd creigiog (40-50m UDO) mewn Calchfaen Carbonifferaidd sy'n taro dwyrain-gorllewin, gyda chlogwyni serth i fertigol 30-40m o uchder. Mae cildraethau bach (Baeau Flimston a Bullslaughter) yn torri i mewn i'r arfordir garw sy'n weddol syth ac yn wynebu'r de rhwng pentiroedd bach. Mae yna nodweddion erydiadol trawiadol, fel bwâu a staciau môr (e.e. Elegug) hwnt ac yma ar hyd yr arfordir, a chreigiau wedi disgyn wrth waelod y clogwyni. Mae'r Calchfaen yn dangos nodweddion hindreulio carstig fel pyllau tegell ac agennau, e.e. ar Benrhyn Linney. Mae Pen Gofan yn drwyn petryalog nodedig sy'n gwthio allan ar y pentir de-ddwyreiniol. Mae caeau twyni helaeth yn gorwedd dros y Calchfaen tua'r tir ar yr arfordir gorllewinol (Twyni Brownslade, Twyni Lipton). Dominyddir ardaloedd rhynglanwol gan lannau creigiog ynni uchel dan glogwyni calchfaen (71%), tra bod gan gilfachau faeau tywodlyd (29%). Mae erydiad y gwynt a'r tonnau'n gweithredu trwy gyrathiad, toddiant, athreuliad a symudiadau hydrolig.

Mae gwaddodion llawr y môr o dywod graeanog yn gorchuddio'r Calchfaen sydd â silffoedd ysgafn i gymedrol (<10°) oddi ar y lan mewn dyfroedd bas (<30m). Mae basddwr peryglus yn amgylchynu ynysigau bach neu greigiau tanddwr yn y parth <10m o ddyfnder (e.e. the Toes). Mae'r moroedd yn agored i wyntoedd uchel a phwysau uchel y tonnau. Mae'r llif llanwol sydd wedi ei osod i'r gorllewin a'r dwyrain yn gallu bod yn gryf (<4 milltir fôr), gyda dyfroedd garw oddi ar Crow Rock. Amrediad y llanw yw 6.6m.

Mae ACA Sir Benfro Forol yn cwmpasu elfen forol gyfan yr ardal hon. Daw'r ymyl arfordirol ei hun dan ACA Arfordir Calchfaen De Orllewin Cymru, AGA Arfordir Castellmartin a SoDdGA Clogwyni a Thwyni Castellmartin. Mae'r cynefinoedd lled-naturiol yn cynnwys gweundir sych, glaswelltir y clogwyni môr, glaswelltir niwtral, gweundir isel, clogwyni, glannau tywodlyd a chreigiog. Mae'r ardal yn cynnal nifer o adar gan gynnwys yr hebog tramor, y frân goesgoch a'r ehedydd. Mae rhywogaethau pwysig eraill yn cynnwys y morlo llwyd, yr ystlum pedol mawr, brith y gors, pili-palaod ac anifeiliaid di-asgwrn-cefn prin eraill.

Oherwydd rheolaeth yr ardal fel meysydd tanio ni fu'n agored i amaethyddiaeth ddwys na datblygiad ac mae yna ddiffyg mynediad i'r cyhoedd, ac felly mae hyn wedi cynnal rhywogaethau amrywiol.

**Dylanwad diwylliannol**

Morwedd sy'n awgrymu cysylltiadau hanesyddol rhwng Cristnogaeth gynnar a'r môr ond sydd hefyd yn dirwedd o amddiffyniad milwrol, o gaerau pentir yr Oes Haearn i'r oes fodern.

Mae Gwersyll Bae Flimston yn un o'r caerau pentir mwyaf trawiadol yn Sir Benfro, gyda thair llinell o amddiffyniad crwn tua'r tir, 120m o hyd, yn torri'r pentir calchfaen sy'n erydu ac yn dymchwel yng Nghastell Flimston. Mae capel Sain Gofan yn enghraifft o ailadeiladu cell meudwy Cristnogol cynnar mewn hollt rhwng clogwyni arfordirol uchel. Mewn cyfnod canoloesol hwyrach, syrthiodd y morwedd hon o fewn iarllaeth Merswyr Penfro; gellir gweld olion y ffermydd a'r pentrefannau y setlodd Ffrancwyr, Saeson a Fflemwyr ynddynt yn Flimston a Pricaston.

Mae dibenion amddiffynnol hwyrach yn amlwg ar Faes Castellmartin, Ystad Hyfforddi'r Fyddin a sefydlwyd ym 1938 ac a ddefnyddiwyd hyd nes 1945 i hyfforddi tanciau gan y Corfflu Arfog Brenhinol. Cafodd ei gaffael eto gan yr Adran Rhyfel ym 1948 a'i ddefnyddio unwaith eto i wasanaethu oherwydd Rhyfel Korea (1950-3). Mae'r defnydd hwn wedi helpu gwarchod y nodweddion archeolegol am na fu llawer o aredig yma.

Mae'r henebion cofrestredig yn cynnwys:
PE166 (caeadle): cymuned: Castellmartin
PE167 (caer bentir): cymuned: Angle
PE316 (caer bentir): cymuned: Castellmartin
PE318 (caer bentir Bae Flimston): cymuned: Castellmartin
PE319 (caer bentir Crocksydam Camp): cymuned: Castellmartin
PE320 (caer bentir Buckspool Down Camp): cymuned: Ystagbwll
PE321 (capel Sain Gofan): cymuned: Ystagbwll
PE447 (fferm): cymuned: Castellmartin
PE451 (fferm Pricaston): cymuned: Castellmartin
PE467 (crug crwn): cymuned: Castellmartin
PE469 (pentref canoloesol segur): cymuned: Castellmartin
PE533 (maes tanio): cymuned: Ystagbwll (hefyd yn rhannol o fewn ACM36)
PE534 (magnelfa arfordirol): cymuned: Castellmartin

Mae yna sawl llongddrylliad oddi ar yr arfordir, rhai'n beryglus ac un, yr Ionian, ag olion amlwg ar y glannau creigiog.

Mae'r morlin hwn wedi denu twristiaid ac awduron cynnar ers yr 17eg ganrif hwyr, a oedd wedi rhyfeddu ar y golygfeydd godidog a'r safleoedd hynafol a welwyd ar hyd y clogwyni môr.

Mae'r arfordir yn cael ei ddefnyddio at ddibenion milwrol ym maes tanio ymarfer Castellmartin gyda defnydd gwledig i'r dwyrain a dim anheddiad. Mae Llwybr Arfordir Sir Benfro'n rhedeg ar hyd hanner dwyreiniol yr arfordir ond gwrthodir mynediad adeg tanio. Mae cerdded Llwybr yr Arfordir yn dal i fod yn weithgaredd pwysig. Mae dringo'n gamp boblogaidd o amgylch holl glogwyni'r ardal.

Efallai bod modd gweld tanceri olew a chychod eraill sy'n cludo llwythi ar eu ffordd at y glanfeydd, terfynfeydd a gorsaf bŵer yn Aberdaugleddau yn pasio oddi ar y lan i'r gorllewin. Efallai y bydd cychod hwylio a hamdden o'r Aber gan gynnwys Dale yn pasio heibio pan fydd gweithrediadau milwrol yn caniatáu hynny. Mae yna angorfa ym Mae Bullslaughter pan fydd y

gwyntoedd yn iawn. Fodd bynnag, gwelir caiacio o amgylch yr arfordir cyfan hwn.

**Nodweddion esthetig, canfyddiadol a phrofiadol**

Dyma dirwedd fawr, syml ac unedig, gyda gwead garw'r clogwyni'n cyferbynnu gyda glaswelltir tonnog a llystyfiant lled-naturiol y llwyfandir. Mae'r arfordir yn agored iawn i'r gwyntoedd deheuol a gorllewinol, ac mae tirwedd y gefnfro braidd yn noeth a dinod. Mae yna londer ac ymdeimlad o berygl ar ymyl y clogwyni, yn enwedig pan fydd y môr yn taro'n erbyn y creigiau a'r staciau, ac ymdeimlad o wylltineb.

Mae golygfeydd allweddol yn cynnwys y rhai oddi ar Lwybr Arfordir Sir Benfro, yn enwedig o amgylch Pen Gofan a'r capel cyfagos, ac o Staciau Elegug. Cyfyngir y golygfeydd at y rhai ar hyd y darn hwn o'r arfordir ac allan at y môr.  Gellir gweld golygfeydd hir ar ddiwrnod clir at Ynys Wair ac arfordir Gogledd Dyfnaint.

Mae sŵn achlysurol tanio trwm y drylliau yn anghytgordio ac yn ymwthiol ond pan na fydd yn bresennol mae'n teimlo fel ardal anghysbell, wyllt ac eithaf heddychlon o'r Parc Cenedlaethol.

**Buddion diwylliannol a gwasanaethau**

Mae'r ardal yn cyfrannu at wasanaethau hamdden ar ffurf llwybr yr arfordir, at dreftadaeth naturiol ar ffurf y clogwyni dramatig a buddion gwarchod natur ar yr arfordir, y môr a'r meysydd tanio, at wasanaethau ysbrydol mewn perthynas â'r ymdeimlad anghysbell a Chapel Sain Gofan a golygfeydd agored o'r môr i'r de, ac at wasanaethau diwylliannol mewn perthynas â'r maes tanio.

**Rhesymau dros newid**

| Crynodeb | | Rhesymau allweddol dros newid | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Erydiad arfordirol araf y clogwyni creigiog. Yng nghynllun rheoli'r traethlin mae'n dweud 'Gwneud dim byd'.<br><br>Mae rheolaeth y meysydd tanio yn cael effaith nodedig ar fynediad a llonyddwch yr ardal, ond yn dod â buddion gwarchod natur ac archeoleg.<br><br>Llygredd sŵn morol o'r sonarau ayb.<br><br>Llygredd morol o'r sbwriel. | **Rhinweddau arbennig** | Prosesau naturiol/newid hinsawdd | Gwasgedd ymwelwyr | Defnydd morol - masnachol a physgota | Egni ar y môr | Gwasgedd datblygiad | Newidiadau rheoli tir | Defnydd MOD |
| | Ysblander yr Arfordir | | | ■ | ■ | | | ■ |
| | Ynysoedd | | | | | | | |
| | Amrywiaeth y Tirlun | | | | | | ■ | |
| | Pellenigrwydd, Tawelwch a Diffeithwch | | | ■ | ■ | | | ■ |
| | Daeareg Amrywiol | | | | | | | |
| | Cyfoeth Cynefinoedd a Bioamrywiaeth | | | ■ | | | ■ | |
| | Archeoleg Gyfoethog | | | | | | | |
| | Cymeriad Anheddiad Nodedig | | | | | | | |
| | Treftadaeth Ddiwylliannol | | | | ■ | | | |
| | Mynediad i'r Parc | | | | | | | ■ |
| | Lle i Anadlu | | | | ■ | | | ■ |
| | **Allwedd** | ■ | Newid yn digwydd yn yr ardal sy'n effeithio ar y nodwedd arbennig ddewisedig | | | | | |

**Sensitifeddau allweddol**

Morlin anghysbell, gwyllt ac agored.

Clogwyni danheddus trawiadol gyda nifer o nodweddion fel bwâu, staciau ac ogofau.

Buddion gwarchod natur ac archeoleg sylweddol.

Natur agored a golygfeydd parhaus o'r môr, gan gynnwys golygfeydd ar ddiwrnod clir at Ynys Wair.

Mae Llwybr Arfordir Sir Benfro yn dderbynnydd sensitif.

Maes milwrol.

Cychod masnachol a fferi ar y ffordd i Aberdaugleddau i'r gorllewin.